# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Awtistiaeth

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
Dydd Gwener 1 Rhagfyr 2023, 13.00

**Yn bresennol**
Mark Isherwood AS/MS (Cadeirydd) (MI)
Tim Nicholls, y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth (Ysgrifennydd Dros Dro) (TN)
Alexander Still, ar ran Hefin David AS/MS (AS)
Rhys Livesy, swyddfa Rhys ab Owen AS/MS (RL)
Paul O'Brien, swyddfa Rhys Ab Owen AS/MS (PO)

**Cofnodion**

**1) Croeso a chyflwyniadau**
Croesawodd MI bawb i'r cyfarfod.

Cadarnhaodd AS fod ganddo awdurdod i wneud enwebiadau ar ran Hefin David. (Mae'r wybodaeth hon wedi'i hanfon at yr ysgrifenyddiaeth i'w chofnodi.)

**2) Ethol Cadeirydd**
Esgusododd MI ei hun o'r Gadair, a gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer rôl y Cadeirydd.

Cafwyd enwebiadau ar gyfer MI gan:
- Hefin David
- Janet Finch-Saunders

Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill. Cafodd MI ei ethol yn Gadeirydd.

**3) Ethol Ysgrifennydd**
Gofynnodd MI am enwebiadau ar gyfer rôl yr Ysgrifennydd.

Cafwyd enwebiadau gan:
- Hefin David
- Janet Finch-Saunders

Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill. Etholwyd TN yn Ysgrifennydd y grŵp.

**CAM I'W GYMRYD: TN i anfon yr adroddiad blynyddol drafft at yr aelodau erbyn diwedd yr wythnos nesaf, fel y gallant wneud sylwadau arno.**

**4) Myfyrdodau ar y flwyddyn ddiweddaf**

Myfyriodd MI ar y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r grŵp wedi cael blwyddyn dda o ran y cyfarfodydd ar y calendr, gan gynnal tri chyfarfod cyhoeddus:

- Ionawr 19, 2023 – Cyfarfod Hybrid, Tŷ Hywel/Microsoft Teams
    - Trosolwg o'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol
    - Cyflwyniad ar addysg a'r broses o bontio o Linellau Cymorth y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth.
- Ebrill 17, 2023 – Cyfarfod Hybrid, Prifysgol Bangor/Microsoft Teams
    - Cyflwyniad ar y mater o feio rhieni ac Osgoi Galw Patholegol (PDA)
- Medi 28, 2023 – Cyfarfod Hybrid, Tŷ Hywel/Microsoft Teams
    - Profiadau o ran cael eich ethol
    - Gwaith y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol
    - Cyflwyniad ar y prosiect Pŵer Cyfartal, Llais Cyfartal.

Mae Chris Haines, a oedd yn gwasanaethu fel ysgrifennydd, wedi rhoi'r gorau i'w rôl gyda Chymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru. Mae bellach yn ôl yn gweithio fel newyddiadurwr yn adrodd ar drafodion y Senedd. Mae Tim Nicholls wedi'i ethol i fod yn ysgrifennydd tra bydd ymdrechion yn cael eu gwneud i ddod o hyd i rywun i'w ddisodli.

Bydd adroddiad llawn yn cael ei baratoi a'i gyflwyno i'r Swyddfa Gyflwyno yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, yn unol â'r rheolau.

**5) Cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf**
Rydym yn bwriadu cynnal cyfarfod ddydd Llun 22 Ionawr am 10.00. Bydd Julie Morgan AS/MS, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, yn bresennol. Bydd cyfle iddi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am y cynnydd a wneir o ran y Cod Ymarfer ar Awtistiaeth ac i ateb cwestiynau pobl am wasanaethau yng Nghymru.

**6) Unrhyw fater arall**
Dywedodd AS fod Hefin David wedi cwrdd â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, sy'n gweithio ar faterion sy'n ymwneud â cholli rhyddid, gan ddadansoddi cytuniadau y mae'r DU yn rhan ohonynt. Dywedodd y byddai gan gynrychiolwyr ddiddordeb mewn ymuno â chyfarfodydd yn y dyfodol.

**CAM I'W GYMRYD: TN i ychwanegu'r unigolion hyn at wahoddiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.**

Yn ogystal, dywedodd AS fod Hefin David wedi cwrdd ag Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru, sef Georgia Miggens. Mae hi'n Aelod sy'n cynrychioli Anabledd Dysgu Cymru, ac mae hi wedi rhoi araith yn ddiweddar.

**CAM I'W GYMRYD: AS i anfon linc i'r araith at TN. TN i gylchredeg y clip.**

**7) Diwedd**
Daeth y cyfarfod i ben am 13.25.